# Cymraeg i Bawb - TAR Cynradd 2022-23

## Darlith 5: 28.9.22
## Cwestiynu

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

l.davies@pcydds.ac.uk

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGORiaith

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Heddiw, byddwn ni'n …

- Adolygu berfau amhersonol a gorchmynnol.
- Dysgu sut i ofyn ac ateb cwestiwn yn gywir.



# Adolygu

- Mae'r Kahoot! yma wedi gosod fel tasg unigol. Cymerwch eich amser. Does dim pwyntiau ychwanegol am ateb yn gyflym. Rhowch eich enw cyntaf fel 'Nickname'

https://play.kahoot.it/v2/lobby?quizId=7fe49a13-8d69-45d9-8bd3-85ff1e0f717a

# Cwestiynau …

Mae dau brif fath o gwestiwn …

**cwestiwn caeëdig**

dim ond ateb cadarnhaol neu negyddol sy'n bosib

**cwestiwn agored**

amrywiaeth o atebion posib

# Cwestiynau caeëdig …

Er mai dim ond ateb cadarnhaol neu negyddol sy’n bosib i gwestiwn caeëdig, mae sawl ffordd o ateb yn gadarnhaol neu’n negyddol yn Gymraeg ….

**Oes**

**Nac oes**

**Ydy**

**Nac ydy**

**Do**

**Naddo**

**Oedd**

**Nac oedd**

**Ie**

**Nage**

**Cei**

**Na chei**

**Ydw**

**Nac ydw**

# Ffurfio cwestiynau caeëdig …

**Oes > ffurfiau amhendant**

*Is there a…?* *Are there any…?*

**Oes llyfr ar y bwrdd?** **Oes pensiliau yn y bocs?**

**Ydy (ydy'r) > ffurfiau pendant**

*Is (the)…?* *Are (the) …?*

**Ydy John yn absennol?** **Ydy'r llyfr ar y bwrdd?**

ATEBION: **Oes / Nac oes** neu **Ydy / Nac ydy**

# Pa un ddylwn i ei ddefnyddio?

Mae cliw yn y cwestiwn fel arfer!

| CWESTIYNAU: |
| --- |
| 1. <u>**Oes**</u> car gennyt ti? |
| 2. <u>**Ydy**</u> e'n mynd heno? |
| 3. <u>**Oedd**</u> Rhodri yn disgwyl ennill? |
| 4. <u>**Fyddi**</u> di'n gorffen am dri? |
| 5. <u>**Est**</u> ti i'r llyfrgell ddoe? |
| 6. <u>**Ai**</u> i'r llyfrgell est ti ddoe? |

**Oes / Nac oes**

**Ydy / Nac ydy**

**Oedd / Nac oedd**

**Byddaf / Na fyddaf**

**Do / Naddo**

**Ie / Nage**

# Pa un ddylwn i ei ddefnyddio?

Mae cliw yn y cwestiwn fel arfer!

| CWESTIYNAU: |
|---|
| 1. **Wyt ti** yn canolbwyntio? |
| 2. **Ydych chi** wedi gorffen? |
| 3. **Ydw i** yn siarad? |
| 4. **Ydw i'n cael** mynd adre? |
| 5. **Ife** pensil yw hwnna? |
| 6. **Alla i** fynd adre? |

**Ydw / Nac ydw**

**Ydyn / Nac ydyn**

**Wyt / Nac wyt … Ydych / Nac ydych**

**Cei / Na chei**

**Ie / Nage**

**Cei / Na chei … Galli / Na alli**

# Tasg 1: Cwestiynau

- Dilynwch y linc i gyflwyniad *PowerPoint* sy'n cael ei rannu gan bawb.

[Darlith 5 - cwestiynu.pptx]

- Chwiliwch am y sleid gyda'ch new ar y top.
- Ysgrifennwch 8 cwestiwn y byddwch chi'n defnyddio yn yr ystafell ddosbarth neu mewn taflenni gwaith.
- Defnyddiwch y patrymau ar sleidiau 2 a 3 i'ch helpu chi

    e.e.

    **Oes unrhyw un yn absennol heddiw?**

# Tasg 2: Atebion

- Ar ôl i chi ysgrifennu 8 cwestiwn, cliciwch ar sleid y myfyriwr sy'n eich dilyn.
- Ysgrifennwch eich enw mewn cromfachau ar bwys yr enw gwreiddiol ar y sleid.
- Ysgrifennwch atebion i'r 8 cwestiwn (ar gyfer y dasg yma mae defnyddio iaith gywir yn bwysicach nag ateb yn gywir!)
- Defnyddiwch y patrymau ar sleidiau 2 a 3 i'ch helpu chi

  e.e.

  **Oes…neu…Nac oes**

# Sawl a Faint?

**Ffurfio'r cwestiwn …**

**Sawl** gydag enw unigol – Sawl plentyn sydd yn y dosbarth?

**Faint** gydag enw lluosog, ond cofiwch yr 'o' a'r treiglad meddal!
**Faint** o blant sydd yn y dosbarth?

**Ateb y cwestiwn …**

Gallwn ateb y ddau gwestiwn trwy roi rhif yn lle faint/sawl …

Sawl plentyn sydd yn y dosbarth? Naw plentyn sydd yn y dosbarth.

Faint o blant sydd yn y dosbarth? Naw o blant sydd yn y dosbarth.

# Tasg: Sawl a Faint?

Ysgrifennwch un cwestiwn ‘Sawl?’ ac un cwestiwn ‘Faint?’ yn y sgwrs.

**Oes angen treiglo?**

# Y treigladau …

| | | |
|---|---|---|
| Sut + berf | | Sut taloch chi am y llyfrau? |
| Sut + enw | Treiglad meddal | Sut gyfrifiadur yw e? |
| Pryd + berf | | Pryd cyrhaeddon nhw? |
| Ble + berf | | Ble gadawaist ti dy got? |
| Beth + berf | Treiglad meddal | Beth **dd**ywedodd y rhiant? |
| Faint + berf | Treiglad meddal | Faint **d**alon nhw? |
| Pwy + berf | Treiglad meddal | Pwy **f**wytodd y cinio? |
| Pa + enw | Treiglad meddal | Pa **l**yfrau ysgrifennodd hi? |
| Pa + enw + berf | Treiglad meddal | Pa **l**yfrau **dd**arllenaist ti? |
| P'un + berf | Treiglad meddal | P'un **b**rynoch chi? |
| Pam | | Pam dest ti i'r ysgol? |

# Cwestiynau agored …

Bydd cwestiynau agored yn caniatáu amrywiaeth o atebion.  Byddan nhw'n cychwyn gyda'r geiriau gofynnol hyn …

Pa …?

Sut …?

Ble …?

Beth …?

Pwy …?

Faint ..?

Pryd …?

Pam …?

# Y Gorffennol …

- Rhaid treiglo'n feddal wrth ofyn cwestiwn sy'n defnyddio berf gryno yn y gorffennol e.e.

  **Dd**arllenodd e'r llyfr?

  **W**elodd e'r rhaglen?

  **Dd**erbyniodd hi'r sefyllfa?

- Ateb: Do/Naddo

# Y Gorffennol …

- Os ydych am fod yn fwy ffurfiol, rhaid defnyddio'r geiryn gofynnol 'a'

A ddarllenodd e'r llyfr?
A welodd e'r rhaglen?
A dderbyniodd hi'r sefyllfa?

- Ateb: Do/Naddo

- SYLWER: Mae'r treiglad yn aros!

# Tasg: Seren Iaith

- Yn y sianeli, un myfyriwr i rannu'r PDF Seren Iaith ar y sgrin

- Fel grwp, trafodwch yr atebion i:
  - **Cwestiynau 1**
  - **Cwestiynau 2**
  - **Cwestiynau 3**



# SIANELI GWAITH GRŴP

**RHEOL:** Mae'n rhaid i chi siarad Cymraeg â'ch gilydd!!

Ewch i'r sianel berthnasol yn y Tîm Cymraeg i Bawb.

| Linda 1 | Linda 2 | Linda 3 |
|---|---|---|
| Tirion<br>Zoe<br>Angharad<br>Aled | Braint<br>Holly<br>Jessica<br>Amy | Lowri Durham<br>Ellie<br>Sioned |
| **Linda 4** | **Linda 5** | **Linda 6** |
| Rhian<br>Bethan<br>Hannah R<br>Megan | Shannon<br>Siân<br>Hannah J. | Lowri J.<br>Lauren<br>Rebecca<br>Ffion M |

# Yn y dosbarth … defnyddio llun fel sbardun

Pa gwestiynau fyddech chi'n gallu eu gofyn i'r disgyblion?



Sut byddech chi'n annog disgyblion i ofyn cwestiynau?

# Yn y dosbarth … defnyddio llun fel sbardun



Sut byddech chi'n annog disgyblion i ofyn cwestiynau?

Pa gwestiynau fyddech chi'n gallu eu gofyn i'r disgyblion?

MUNUD I FEDDWL:
A oes modd datblygu sgiliau ysgrifennu?

# Yn y dosbarth … defnyddio llun fel sbardun




**Pecyn o adnoddau defnyddiol.**

Peniarth
.cymru

# Yn y dosbarth … defnyddio llun fel sbardun

**Pa gwestiynau fyddech chi'n gallu eu gofyn i'r disgyblion?**



**Sut byddech chi'n annog disgyblion i ofyn cwestiynau?**

**MUNUD I FEDDWL: A oes modd datblygu sgiliau ysgrifennu?**

# Ping pong neu bêl-rwyd?

Meddyliwch am ddatblygu sgiliau cwestiynu fel dwy gêm.  Ar y dechrau rydych chi am ddysgu'r patrymau cywir iddyn nhw drwy ddarparu cyfleoedd i atgyfnerthu patrymau holi ac ateb (ping pong).  Yn y pendraw, rydych chi am annog disgyblion i ateb ei gilydd yn gywir a chwestiynu ei gilydd hefyd (pêl-rwyd).








Darlith nesaf:

**12.10.2022 @ 2yp**
**ar-lein**

**Dyma fydd eich sesiwn olaf cyn i chi fynd ar eich Profiad Addysgu Proffesiynol cyntaf.**

Neges atgoffa am y **Dystysgrif Sgiliau Iaith**

Dyma'r ddolen i gofrestru os oes diddordeb:
http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/sgiliauiaith/tystysgrifsgiliau/cofrestru/cofrestruprifysgol/

Os am ragor o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â Bethan Griffiths, Rheolwr Rhagoriaith, ar e-bost: bethan.griffiths@uwtsd.ac.uk